

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Tŷ Catrin

Priory Group

Dyddiad arolygu: 3, 4 a 5 Mehefin
2019

Dyddiad cyhoeddi: 5 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella	Error! Bookmark not defined.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Tŷ Catrin ar 3 Mehefin 2019 gyda'r nos, a'r diwrnodau canlynol, sef 4 a 5 Mehefin 2019. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Bute – Uned Diogelwch Isel i Ddynion – 11 o welyau
- Roath – Ar Gau
- Victoria – Uned Diogelwch Isel i Fenywod – 11 o welyau
- Sophia – Uned Diogelwch Isel i Fenywod – wyth gwely
- Trelai – Uned Ddibyniaeth Uchel i Fenywod – 4 gwely
- Heath – Uned Adsefydlu gofal llai dwys wedi'i Chloi i Fenywod – 4 gwely

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygydd sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod strwythur rheoli yn Tŷ Catrin sy'n cael ei gefnogi gan The Priory Group, ond gwelsom fod staff y wardiau yn teimlo bod diffyg cysylltiad rhyngddynt a'r uwch-reolwyr.

Gwelsom nad oedd gan Tŷ Catrin fodel gofal priodol i'r grŵp cleifion sy'n cael eu trin yn yr ysbyty.

Mae angen gwella'r broses dderbyn yn sylweddol, yn enwedig o ran priodoldeb cadw cleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd gofal yn Tŷ Catrin yn briodol i'r grŵp cleifion
- Roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol
- Mae amrywiaeth eang o weithgarwch archwilio sy'n ymwneud â materion clinigol a diogelwch ym mhob rhan o'r ysbyty
- Lefel uchel o gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant staff gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nodi anghenion nas diwallwyd
- Cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Argaeledd gwybodaeth gyswllt AGIC i gleifion
- Lefelau o lendid mewn rhai ardaloedd i gleifion.

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

Rheoliadau 30 a 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 i hysbysu'r awdurdod

cofrestru, sef Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, am ddigwyddiadau sy'n destun yr hyn a ddiffinnir gan y rheoliadau.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses cofnodi digwyddiadau yn ymwybodol o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer hysbysu AGIC.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau a gymerwyd i wneud y gwelliannau sydd eu hangen.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Catrin wedi'i gofrestru i ddarparu Ysbyty Iechyd Meddwl annibynnol yn Tŷ Catrin, Heol Dyfrig, Caerdydd CF5 5AD.

Mae gan y gwasanaeth 44 o welyau mewn chwe ward rhyw benodol. Ar adeg yr arolygiad, roedd 35 o gleifion yno. Roedd ward Roath wedi cael ei chau dros dro oherwydd diffyg cleifion gwrywaidd.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 26 Hydref 2009. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Ysbyty, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, pedwar rheolwr ward, dau gydgyssylltydd nos a thîm o weithwyr gofal iechyd a nyrsys cofrestredig. Ceir aelodau tîm amlddisgyblaethol hefyd, sy'n cynnwys seiciatryddion fforensig ymgynghorol, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm o staff cynnal a chadw, arlwyo a glanhau. Cynorthwyr gweithrediad yr ysbyty gan dîm o staff gweinyddol.

Cefnogir yr ysbyty gan strwythurau rheoli a threfniadol The Priory Group.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn yr ysbyty cyfan yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol. Fodd bynnag, gwelsom aelod o'r staff yn eistedd yn gwylio'r teledu ar ward heb ddangos diddordeb amlwg yn y grŵp o gleifion yn yr un ardal gymunedol.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'r cleifion, ond roedd hyn yn anghyson yn y wardiau. Hefyd, nid oedd gwybodaeth gyswllt AGIC yn cael ei harddangos.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o fentrau ym maes hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn Tŷ Catrin a oedd yn helpu i gynnal a gwella eu llesiant. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harddangos mewn lleoliadau amrywiol yn yr ysbyty cyfan a'r wardiau. Roedd anghysondebau rhwng y wardiau o ran faint o wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos. Lle nad oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos, dywedwyd wrthym fod hyn yn rhan o'r broses o reoli risg a berir gan y cleifion ar wardiau unigol.

Mae Tŷ Catrin yn amgylchedd dim smygu; gall y cleifion gwblhau cwrs rhoi'r gorau i smygu dros 12 wythnos pan gânt eu derbyn ac ar unrhyw adeg ddilynol os bydd ei angen arnynt.

Roedd y cleifion yn gallu mynd at eu meddyg teulu, deintydd a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ffisegol eraill yn y gymuned. Cadarnhawyd mynediad at apwyntiadau o'r fath drwy sgysiau â'r cleifion a'r staff, ynghyd â'r dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion.

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau i helpu i gynnig therapiâu a gweithgareddau yn yr ysbyty. Roedd staff yr ysbyty yn cynnwys tîm o therapyddion galwedigaethol a chynorthwyr therapi galwedigaethol. Dywedwyd wrthym fod gan un o'r cleifion ddiddordeb brwd mewn garddio. Roedd yr ysbyty yn cefnogi hobi'r claf hwn drwy ddarparu offer garddio ac amser bob dydd y tu allan i diroedd yr ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod y claf hwn hefyd yn cynnal dosbarthiadau i addysgu sgiliau garddio i gleifion eraill.

Roedd ardal gymunedol i gleifion a elwir yn Piazza. Roedd hyn yn cynnig man lle gallai'r cleifion gymryd rhan mewn nifer o sesiynau grŵp. Roedd y rhain yn cynnwys grŵp brecwast a sesiynau therapi. Roedd cleifion a oedd yn treulio cyfnod awdurdodedig i ffwrdd o'r ysbyty yn gallu defnyddio cyfleusterau hamdden yn y gymuned.

Roedd yr ystafell gelf yn rhoi'r cyfle i'r cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau celf a chreffft yn yr ysbyty. Roedd yr ystafell gelf hefyd yn cynnwys cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngwyd. Gwelsom gleifion (o dan oruchwyliaeth y staff) yn defnyddio'r rhain er mwyn siopa ar y rhyngwyd am eitemau personol.

Roedd ystafell addas ar gael ar y llawr isaf i ymwelwyr, gwasanaethau aml-ffydd a sesiynau ymlacio. Roedd ardal ymweld ddynodedig i blant ar y llawr gwaelod y gellid mynd iddi drwy brif fynedfa'r ysbyty. Roedd hyn mewn lleoliad addas fel bod angen i blant sy'n ymweld ond mynd i mewn i dderbynfa'r ysbyty ac nid y prif ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n hybu iechyd ar gael yn gyson i'r cleifion.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig i roi gofal ag urddas i'r cleifion.

Ar y cyfan, clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, gan gynnwys rhyngweithio'n brydlon ac yn briodol, mewn ymgais i atal ymddygiad y cleifion rhag gwaethygu. Ar y cyfan, pan oedd y cleifion yn mynd at aelodau o'r staff, roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol. Fodd bynnag, ar un achlysur gwelsom aelod o'r staff yn ymateb mewn modd diamynedd ac yn anwybyddu cais y claf.

Gwnaethom arolygu'r ddwy Uned Gofal Dwys yn Tŷ Catrin. Roedd teledu cylch cyfyng (CCTV) ar gael ar gyfer arsylwi ar bob rhan o'r Uned Gofal Dwys. Nid oedd gan y CCTV hwn unrhyw gyfleuster recordio. Dywedodd y darparwr cofrestredig wrthym fod y defnydd o CCTV yn seiliedig ar risg cleifion a

digwyddiadau unigol er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y claf yn yr Uned Gofal Dwys a chynnal diogelwch y claf a'r staff ar yr un pryd.

Mae'r darparwr cofrestredig wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y defnydd o CCTV sy'n taro'r cydbwysedd cywir rhwng cynnal preifatrwydd a gwella diogelwch.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch a charedigrwydd ac roeddent yn canmol y gofal, y driniaeth a'r cymorth a roddir yn yr ysbyty. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion eu bod yn ei chael yn anodd mynd at staff anghyfarwydd a allai fod wedi bod yn gweithio ar y ward fel aelod o staff asiantaeth, staff banc neu aelod o staff cyflenwi o ward arall. Roedd yn amlwg drwy siarad ag uwch-reolwyr bod rhywfaint o ddibyniaeth ar staff asiantaeth a banc yn yr ysbyty.

Ar bob ward, mae gan y cleifion eu hystafell wely en suite eu hunain â thoiled, sinc a chawod. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely er mwyn atal cleifion eraill rhag mynd i mewn iddynt; gallai'r staff ddatgloi ystafelloedd y cleifion os oedd angen. Roedd y cleifion yn gallu cael eitemau personol yn eu hystafelloedd gwely yn dibynnu ar lefel y risg. Roedd hyn yn cael ei asesu'n unigol i bob claf.

Yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom fod lleithder ar y wal ger y toiled yn ystafell en suite un claf. Roedd y paent yn pilio i ffwrdd ar ran fawr o'r wal ac roedd mewn cyflwr gwael. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddatrys problem y lleithder yn yr ystafell en suite a sicrhau bod yr ystafell wedi'i haddurno i safon briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y staff ar y ward eu goruchwyllo'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y lefelau disgwylidig o arfer proffesiynol yn cael eu cynnal.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ystafelloedd gwely'r cleifion yn cael eu cynnal i safon briodol, gyda gwaith yn cael ei wneud yn brydlon.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Ers ein harolygiad diwethaf, mae sesiynau eirioli galw heibio wythnosol wedi ailddechrau yn yr ysbyty. Roedd hyn yn annog y cleifion i ddefnyddio gwasanaethau eirioli statudol heb apwyntiad a chael y mewnbwn y mae ganddynt yr hawl i'w gael.

Roedd gwybodaeth am gwynion ar gael ar y wardiau a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yr hoffent wybod sut i godi cwyn. Fodd bynnag, nid oedd manylion cyswllt AGIC yn cael eu harddangos mewn unrhyw ardal i gleifion. Roedd y fwydlen pedair wythnos yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion ei darllen, yn ogystal â gwybodaeth am raglen o weithgareddau'r ysbyty a chyfleusterau cymunedol lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion, gan reoli'r risg ar yr un pryd.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff manylion cyswllt AGIC eu harddangos er mwyn i'r cleifion eu defnyddio os bydd angen.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff ar y cyfan yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud. Serch hynny, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom aelod o'r staff yn ymateb yn ddiamynedd i gais claf am fod yr aelod o'r staff yn brysur yn gwneud rhywbeth arall.

Roedd pob ward yn cynnal cyfarfodydd cynllunio bob bore er mwyn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, er enghraifft cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol.

Roedd fforwm i gleifion. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gofal y maent yn ei gael yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon ag aelodau o'r staff.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd. Roedd y cleifion hefyd yn cael eu gwahodd i gadeirio eu cyfarfodydd Cynllun Gofal a Thriniaeth eu hunain.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn yr ysbyty. Roedd gofal yn cael ei addasu ar gyfer yr unigolyn ac, ar y cyfan, roedd yn canolbwyntio ar adferiad ac roedd yn cael ei roi ar sail yr arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio a darparu gofal.

Roedd gan bob claf ei raglen gofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol megis meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned pan oedd angen gwneud hynny.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â sawl aelod o staff y wardiau. Dywedwyd wrthym nad oedd yr ysbyty yn dilyn model gofal penodol. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-reolwyr a ddarparodd gopi caled o fodel gofal yr ysbyty, a oedd yn seiliedig ar Therapi Ymddygiad Gwybyddol. Ni roddwyd sicrwydd i ni fod y model gofal a fabwysiadwyd gan yr ysbyty yn cael ei gyfleu'n effeithiol i'r staff sy'n darparu'r gofal hwnnw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn dilyn model gofal priodol sy'n briodol i'r grŵp cleifion, a dangos bod hyn yn cael ei ddilyn. Ac mae'n rhaid sicrhau bod pob aelod o staff yr ysbyty yn ymwybodol o'r model gofal hwn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty. Mae'r darparwr cofrestredig wrthi'n archwilio'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r Ddeddf ac mae'n rhaid iddo wneud gwelliannau i'r ffordd y caiff ei chymhwyso (yn Tŷ Catrin ac ysbytai eraill y darparwr cofrestredig) er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf ac fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer Cymru 2016 ar y Ddeddf Iechyd Meddwl. Rhoddir mwy o fanylion ynghylch y materion a nodwyd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd rheolaidd â chleifion yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty hefyd yn cynnal arolygon cleifion; fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am ganlyniadau'r arolwg, pa gamau gweithredu y mae'r darparwr cofrestredig wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd, yn cael eu harddangos yn y dderbynfa i ymwelwyr.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion am wasanaethau yn Tŷ Catrin.

Roedd cwynion yn cael eu categorio'n rhai anffurfiol neu ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi ar bob ward mewn dogfen bapur, gyda chwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar gofnodlyfr cwynion cyfrifiadurol i'r ysbyty cyfan.

Drwy adolygu'r wybodaeth am gwynion anffurfiol a ffurfiol a adolygwyd, dangoswyd bod unigolyn annibynnol yn cael y dasg o ymchwilio i'r gŵyn a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad er mwyn sicrhau bod yr ysbyty yn ymdrin â chwynion yn briodol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu amgylchedd diogel i'r cleifion. Roedd rhai ardaloedd i gleifion unigol yn yr ysbyty y nodwyd bod angen gwaith glanhau ac atgyweirio sylweddol arnynt.

Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn benodol er mwyn datblygu proses dderbyn drylwyr i gwmpasu priodoldeb cadw'r cleifion.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn Tŷ Catrin. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a oedd yn cael ei gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd mynedfa'r ysbyty wedi'i chloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig wrth i'r holl staff ac ymwelwyr gofrestru yn y dderbynfa. Roedd gan yr ysbyty weithdrefnau diogelwch ar waith er mwyn lleihau'r risg o ddod ag eitemau dan gyfyngiadau i mewn i'r wardiau. Roedd nyrs ddiogelwch wedi'i neilltuo i bob sifft ar bob ward a oedd yn gyfrifol am gynnal y protocolau diogelwch ar bob ward.

Roedd rhestr o eitemau gwaharddedig yn cael ei harddangos yn nerbynfa'r ysbyty ac roedd loceri â chloeon arnynt er mwyn storio unrhyw eitemau nad oeddent yn cael eu caniatáu ar y wardiau, e.e. ffonau symudol, tanwyr sigarêts a hylifau fflamadwy.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd manau galw am nyrs hefyd o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd angen.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal corfforol yn cael ei ddogfennu, gan gynnwys pwy oedd dan sylw ac osgo corff pob person dan sylw.

Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu cysylltu'n awtomatig â nodiadau gofal electronig y claf unigol a oedd yn sicrhau bod y rhain yn gyfredol.

Er i ni ystyried bod y ffordd y cofnodir achosion o atal rhywun yn gorfforol o safon dda, nid oedd llawer o fanylion wedi'u cofnodi ynghylch yr hyn a oedd wedi digwydd i gyfiawnhau'r defnydd o ddulliau atal corfforol na'r hyn a'i ddilynodd. Er enghraifft, pa dechnegau llonyddu a roddwyd ar waith, effaith dull gweithredu penodol a ph'un a oedd yr ymyrraeth benodol hon wedi cael yr effaith a ddymunwyd. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r ffordd y mae'n cofnodi tystiolaeth ynghylch pam roedd yn rhaid atal rhywun yn gorfforol a pha dechnegau llonyddu a ddefnyddiwyd cyn ei atal.

Roedd hierarchaeth ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n amserol gan aelod o'r tîm clinigol sydd ynghlwm wrth ofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Gwelsom fod cynnwys y digwyddiadau yn anghyson. Roedd rhai yn fanwl iawn ac o safon uchel ond roedd rhai yn amwys iawn ac nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion i alluogi'r darllenydd i lawn ddeall cyddestun y digwyddiad a gweithredoedd dilynol y staff os oedd angen y rhain.

Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol i ddadansoddi meysydd penodol yn ôl yr angen. Roedd y system a'r amserlenni ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel yn Tŷ Catrin. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd adroddiadau ar rai digwyddiadau y dylid rhoi gwybod amdanynt i AGIC o dan reoliadau 30 a 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn cael eu cyflwyno. Trafodwyd hyn â'r darparwr cofrestredig o dan ein gweithdrefn diffyg cydymffurfio. Ceir mwy o fanylion am y gwelliant sydd ei angen a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y darparwr cofrestredig yn Atodiad B.

Fel rhan o strategaeth yr ysbyty ar gyfer rheoli ymddygiad heriol, roedd dwy Uned Gofal Dwys, un ar y llawr gwaelod ar gyfer wardiau'r dynion a'r llall ar y llawr cyntaf ar gyfer wardiau'r menywod. Roedd gan gyfleusterau'r Unedau Gofal Dwys doiled a chwadydd hunangynhwysol priodol.

Y penderfyniad i ddefnyddio Uned Gofal Dwys oedd y cam olaf wrth reoli ymddygiadau cleifion, a gellid ei defnyddio er mwyn neilltuo cleifion¹. Pe bai risg claf yn pennu bod angen hynny, byddai dillad a dillad gwely na ellid eu rhwygo yn cael eu darparu er mwyn ei helpu i gadw ei urddas wrth gael gofal mewn Uned Gofal Dwys ac ar y wardiau. Roedd gan y Darparwr Cofrestredig bolisi ar waith ar gyfer y defnydd o'r Unedau Gofal Dwys a neilltuo cleifion a oedd yn nodi y gellid cadw cleifion mewn Uned Gofal Dwys am gyfnod byr o amser, neu am gyfnodau hirach megis diwrnodau neu wythnosau. Roedd y defnydd o'r Unedau Gofal Dwys a neilltuo cleifion yn yr ysbyty yn cael ei gofnodi a'i fonitro.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod Cydgysylltydd Nos dynodedig, sef y nyrs gofrestredig â chyfrifoldeb am yr ysbyty yn gweithio yn ystod pob sifft nos. Roedd y rôl hon yn cynnig arweinyddiaeth a chymorth i staff y wardiau. Roedd y Cydgysylltydd Nos y gwnaethom gyfarfod ag ef ar noson gyntaf yr arolygiad yn gallu darparu gwybodaeth hanfodol am staff a grŵp cleifion yr ysbyty. Roedd hyn yn dangos bod gweithrediad yr ysbyty yn ystod y nos yn cael ei oruchwylio'n glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Wrth gofnodi achosion o atal rhywun yn gorfforol, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hyn sy'n arwain at y defnydd o ddulliau atal corfforol ac sy'n ei gyfiawnhau yn cael ei gynnwys, yn ogystal â manylion yr ôl-ofal a ddarperir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n fanwl ac yn gyson ymhlith holl aelodau'r staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiwyd trefniadau archwiliadau rheolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd

¹ Cyfyngu claf dan oruchwyliaeth mewn ystafell, y gellir ei chloi. Ei unig nod yw cyfyngu ar ymddygiad hynod gynhyrfus sy'n debygol o achosi niwed i eraill.

ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd pedwar aelod o staff gwasanaeth gwesty yn glanhau'r wardiau ar sail rota ac yn ymateb i unrhyw anghenion glanhau uniongyrchol a oedd yn cael eu nodi.

Yn gyffredinol, gwelsom fod yr ysbyty yn lân ei olwg, heb eitemau diangen wedi'u gadael. Fodd bynnag, ar ward Trelai, gwelsom fod dwy ystafell wely i gleifion yn anniben ac yn frwnt. Roedd y dillad gwely o safon wael iawn ac yn frwnt. Er enghraifft, roedd llawer o staeniau ar un o obenyddion y cleifion. Gwelsom hefyd fod llawer o staeniau ar rai toiledau ar y waliau. Tynnwyd sylw uwch-aelodau o staff yr ysbyty at hyn. Roedd y staeniau i'w gweld o hyd y diwrnod canlynol.

Hefyd ar ward Trelai, roedd y bwrdd yn y gegin, lle roedd diodydd a byrbrydau i gleifion yn cael eu paratoi, wedi'i ddifrodi ac roedd angen ei atgyweirio am ei fod yn risg i iechyd a diogelwch. Roedd yr oergell a'r rhewgell yn y gegin hon yn cynnwys bwyd a diodydd i gleifion. Nid oedd dyddiad wedi'i nodi ar yr un o'r eitemau hyn i ddangos pryd roeddent wedi cael eu gosod yno na phryd roeddent wedi cael eu hagor.

Roedd darn o garped ar un o'r wardiau a oedd wedi cael ei ddifrodi gan glaf. Roedd hwn wedi cael ei symud yn llwyr cyn yr arolygiad ond ni roddwyd dim yn ei le. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty wedi archebu'r carped newydd ac roeddent yn aros iddo gael ei osod.

Mae'n gadarnhaol nodi bod y darparwr cofrestredig wedi cynyddu nifer y cyfleusterau golchi dillad sydd ar gael i'r cleifion ym mhob rhan o'r ysbyty ers ein harolygiad diwethaf.

Roedd cynhyrchion glanhau'r dwylo ar gael yn y manau perthnasol o'r ysbyty. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol i atal a rheoli heintiau a dihalogi hefyd ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol. Nid oedd y rhain yn gorlifo.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dillad gwely'r cleifion yn lân ac o safon dderbyniol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau'r cleifion megis ceginau, toiledau ac ystafelloedd ymolchi yn lân a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dderbyniol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyddiad yn cael ei nodi ar yr holl fwyd yn oergelloedd y cleifion pan gaiff ei osod yn yr oergell a phan gaiff ei agor.

Maeth

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fod y fwydlen yn amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu dewis eu bwyd. Roedd y bwydlenni hefyd yn amrywio yn ôl y tymhorau drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â'r prydau bwyd a ddarparwyd, roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r gegin therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau eu hunain ac archebu bwyd parod i'w ddsbarthu i'r ysbyty.

Roedd adborth y cleifion ar y prydau bwyd a'r dewis ar y fwydlen yn cael ei goladu ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn llywio newidiadau i'r dewis ar y fwydlen. Roedd barn y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad yn gymysg am y bwyd a ddarperir yn yr ysbyty.

Byddai'r tîm arlwyo yn darparu prydau bwyd ar gyfer gofynion deietegol penodol, megis cleifion y mae eu pwysau yn cael eu rheoli fel rhan o'u triniaeth.

Roedd ceginau ym mhob un o'r wardiau fel y gallai cleifion gael gafael ar ddiodydd a byrbrydau ddydd a nos.

Rheoli meddyginiaethau

Adolygwyd clinigau'r ysbyty a gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo ac eithrio'r oergell feddyginiaeth yn ward Trelai. Dywedwyd wrthym fod un newydd wedi cael ei harchebu. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa ac roedd meddyginiaethau'n cael eu harchwilio a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth a'r ystafell glinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrddydd.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio. Canfuom fod y staff yn cyfrif am y rhain yn gywir ac yn eu gwirio'n ddyddiol.

Roedd gan yr ysbyty glinigau a rennir ar gyfer wardiau Bute a Roath, a Sophia a Victoria; er bod yr ystafelloedd hyn yn fach, roeddent yn cynnig man diogel ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Roeddent hefyd yn cynnig rhywfaint o gyfrinachedd pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Roedd y Siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf a ffotograff ohono. Gwelsom nad oedd statws cyfreithiol y claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei gofnodi bob amser. Roedd siartiau MAR yn cynnwys copïau o dystysgrifau cydsynio i driniaeth ac roedd y siartiau'n cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan na fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Gwelsom fod meddyginiaeth yn ôl yr angen (PRN) ragnodedig² yn cael ei rhoi fel mater o drefn ac o bryd i'w gilydd yn rhagweithiol heb gyfiawnhad manwl. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddangos a chofnodi'r rhesymau dros roi meddyginiaeth PRN, a hynny'n llawn, bob tro y caiff ei rhoi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod siartiau MAR y cleifion yn nodi statws cyfreithiol y claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddangos a chofnodi'r rhesymau dros roi meddyginiaeth PRN, a hynny'n llawn, bob tro y caiff ei rhoi.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at

² https://www.answers.com/Q/What_is_PRN_medication

asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Fel y nodwyd uchod, roedd cyfleusterau ymweld i blant wedi'u lleoli'n briodol yn yr ysbyty.

Roedd gan yr ysbyty dîm o Weithwyr Cymdeithasol a oedd yn gweithredu fel yr arweinwyr diogelu ar gyfer yr ysbyty, ac yn ymdrin â'r holl atgyfeiriadau diogelu a'r llwyth gwaith dilynol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn yr ysbyty ac archwiliad o'r offer dadebruo bob nos. Roedd y staff wedi cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn bresennol ac yn barod i'w ddefnyddio. Roedd yr ysbyty yn ailddatblygu ei restr wirio er mwyn sicrhau bod archwiliad cyson ymhob rhan o'r ysbyty.

Roedd amrywiaeth o dorwyr clymu ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty rhag ofn bod argyfwng. Roedd y staff yn gwbl ymwybodol o'r lleoliadau o fewn pob swyddfa nyrsio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd trefniadau'r ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu The Priory Group a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Mae gan un o'r tîm seicoleg yn yr ysbyty gysylltiadau agos â'r brifysgol leol. Drwy'r cysylltiadau hyn, mae nifer o fyfyrwyr meddygol yn mynychu sesiynau hyfforddiant yr ysbyty er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiad â staff yr ysbyty.

Mae un o'r nyrsys dan hyfforddiant yn yr ysbyty yn llunio thesis ar ordewdra a'i gysylltiadau â meddyginiaeth iechyd meddwl. Mae Tŷ Catrin yn cefnogi'r ymchwil hon ac yn gobeithio y bydd y canlyniad o fudd i gleifion yr ysbyty yn y dyfodol.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn electronig ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a daethom i'r casgliad bod y cofnodion a gedwir o safon wael ac nad oeddent yn cynnwys digon o fanylion. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y nodiadau'n anghyson
- Gwallau teipio
- Diffyg tystiolaeth i gyfiawnhau'r defnydd o feddyginiaeth PRN.
- Dim cofnod o arwyddion neu sbardunau atglafychu unigolion
- Dogfennu camau gweithredu/llonyddu cyn neu ar ôl atal rhywun yn gorfforol
- Dim cynlluniau cymorth cadarnhaol ar waith
- Cofnodi caniatâd i fod yn absennol o dan adran 17 yn anghywir

Roedd yn amlwg bod staff o'r timau amlddisgyblaethol i gyd yn ysgrifennu cofnodion rheolaidd a oedd yn darparu dogfen fyw am y claf a'i ofal. Roedd asesiadau risg seicoleg yn dda ac yn cael eu cofnodi'n dda ac roedd tystiolaeth o adolygiadau rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau meddygol yn cael eu cynnal i safon broffesiynol gydnabyddedig.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol dau glaf mewn dwy ward. Adolygwyd hefyd y trefniadau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ym mhob un o'r pum ward a oedd yn cael eu defnyddio yn Tŷ Catrin.

Cadarnhaodd ein hadolygiad o'r ddwy set o ddogfennau statudol fod un o'r cleifion yn cael ei gadw gan Tŷ Catrin yn unol â'r gyfraith a bod y llall wedi dod yn glaf anffurfiol yn ddiweddar ar ôl iddo gael ei nodi nad oedd yn ddilys ei gadw'n gyfreithlon mwyach.

Roedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl wrthi'n archwilio'r holl ddogfennau statudol a gedwir yn Tŷ Catrin. Dywedwyd wrthym mai'r archwiliad hwn oedd yn gyfrifol am nodi nad oedd yr achos uchod o gadw claf yn ddilys mwyach.

Roeddem yn fodlon ar gamau gweithredu prydlon Tŷ Catrin i unioni'r sefyllfa. Fodd bynnag, tanlinellodd fethiant yn y broses dderbyn yn Tŷ Catrin a oedd wedi caniatáu i'r achos hwn o gadw claf yn amhriodol ddiwydd a pharhau am gyfnod estynedig o amser.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddatblygu proses dderbyn drylwyr i'r holl gleifion er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y broses dderbyn yn Tŷ Catrin yn drylwyr ac yn cwmpasu gwiriadau statws cadw cleifion yn gyfreithiol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pedwar claf i gyd.

Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn anghyson o ran y ffordd roeddent yn adlewyrchu meysydd Mesur Iechyd Meddwl Cymru. Roedd rhai yn fanwl iawn gan ymdrin â phob maes, ond nid oedd eraill yn cwmpasu pob agwedd. Roedd rhai cofnodion yn defnyddio jargon a byrfoddau a fyddai'n anodd eu deall. Gwelsom hefyd nad oedd anghenion nas diwallwyd yn cael eu dogfennu bob amser.

Ar gyfer pob un o'r pedwar Cynllun Gofal a Thriniaeth a adolygwyd, roedd yn hawdd nodi'r cydgysylltydd gofal dynodedig ar gyfer y claf.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau er mwyn nodi a monitro eu gofal, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dangos proses dda o fonitro iechyd corfforol.

Gwelsom ym mhob un o'r pedwar cynllun gofal nad oedd anghenion nas diwallwyd y claf wrth iddo gael gofal yn yr ysbyty yn cael eu dogfennu. Mae'n bwysig y caiff anghenion nas diwellir eu dogfennu fel y gall y tîm amlddisgyblaethol adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn ystyried opsiynau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Dywedodd y cleifion a'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am eu gofal (pan oedd y cleifion am gyfranogi). Gwelsom fod hyn yn cael ei ddogfennu yn y cynlluniau gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod holl agweddau Mesur y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cofnodi'n glir ac yn gyson yn y cynlluniau gofal a thriniaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu dogfennu yng nghynlluniau gofal y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom strwythur uwch-reoli yn Tŷ Catrin, a oedd yn cael ei gefnogi gan The Priory Group.

Arsylwyd ar staff ward a oedd yn deall anghenion y cleifion yn dda. Fodd bynnag, clywsom am staff wardiau a oedd yn teimlo bod diffyg cysylltiad rhyngddynt a'r uwch-reolwyr.

Roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol staff yn uchel ar y cyfan.

Gwelsom fod Tŷ Catrin wrthi'n cynnal proses recriwtio gynhwysfawr ar gyfer rolau amrywiol yn yr ysbyty i staff clinigol a chynorthwyol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Ar y cyfan, roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl drwy gynnal adolygiad penodol o statws cyfreithiol y claf pan gaiff ei dderbyn.

Drwy sgwrsio â'r staff, arsylwi ar ymgysylltiad a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu cofnodion y cleifion, roedd hi'n galonogol gweld tystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol cryf. Gwnaeth y staff siarad yn ffafriol

am waith amlddisgyblaethol, gan nodi eu bod yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u parchu gan aelodau eraill o staff.

Nodwyd hefyd fod tystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol effeithiol a chydweithredol yn ystod cyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Roedd gan bob disgyblaeth bennaeth adran a oedd yn arwain y tîm ac yn cydweithio â phenaethiaid adrannau eraill o fewn The Priory Group.

Gwelsom fod gan y staff farn gymysg am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan yr uwch-reolwyr. Roedd teimlad cyffredinol bod diffyg cysylltiad rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff ar y ward ac nad oeddent yn ddigon gweladwy. Fodd bynnag, roedd y staff yn canmol rheolwyr y wardiau a chymorth cydweithwyr eraill o bob disgyblaeth. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Roedd yn gadarnhaol bod staff Tŷ Catrin, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd hi'n amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Tŷ Catrin ac yn gorfforaethol drwy systemau adrodd rheolaidd.

Fodd bynnag, gwelsom fod anghysondebau o ran y manylion yn y cofnodion o ddigwyddiadau gan aelodau amrywiol o'r staff. Er bod rhai o safon dda, roedd rhai yn amwys iawn ac nid oeddent yn rhoi digon o wybodaeth i'r darllennydd ddeall yr amgylchiadau'n llawn. Gwnaed argymhelliad ar gyfer gwella yn gynharach yn yr adroddiad mewn perthynas â'r mater hwn.

Gwelsom hefyd na roddwyd gwybod i AGIC am rai digwyddiadau y byddai wedi bod yn ofynnol rhoi gwybod amdanynt. Ymdriniwyd â hyn o dan ein gweithdrefn diffyg cydymffurfio.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y niferoedd staffio yn Tŷ Catrin a'r hyn a nodwyd yn ei Ddatganiad o Ddiben. Roedd gan Tŷ Catrin ymgyrch recriwtio barhaus o ganlyniad i nifer o swyddi gwag ar y safle. Roedd y rhain yn cynnwys Cyfarwyddwr Meddygol, dau Seicolegydd, pen-cogydd, clerc ward a nyrs practis.

Roedd nifer o nyrsys cofrestredig newydd ar fin dechrau a gwelsom dystiolaeth o gynllun wrth gefn i gyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth yn y dyfodol agos. Mae Tŷ Catrin yn mynd ati i gymryd rhan yn nigwyddiadau lleol ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwella'r posibilïadau recriwtio ar gyfer y swyddi gwag hyn.

Er mwyn gwneud iawn am unrhyw brinder staff a allai godi oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system banc staff ar waith, ynghyd â defnydd staff asiantaeth. Roedd y rotâu staff yn dangos bod y nyrsys cofrestredig asiantaeth a oedd yn cael eu defnyddio fel rheol yn unigolion a oedd yn cael eu cyflogi'n rheolaidd yno ac a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a gyda'r grŵp cleifion. Roedd hyn yn helpu i ddarparu gofal parhaus i'r cleifion.

Roedd yn galonogol nodi bod cyfarwyddwr yr ysbyty wedi datblygu Cynllun Gweithlu (Cadw Cyflogeion) Tŷ Catrin. Mae hyn yn dogfennu blaenoriaethau'r sefydliad wrth ddatblygu a chadw ei weithlu ochr yn ochr â chynigion a mentrau a oedd wedi cael eu datblygu neu eu cynllunio.

Adolygwyd yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel ar y cyfan. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod proses sefydlu fanwl ar gyfer yr holl staff a oedd yn gweithio ar y wardiau yn Tŷ Catrin.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn Tŷ Catrin. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn cyflogaeth, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau.

Roedd pob aelod o staff yn dilyn rhaglen sefydlu cyn dechrau gweithio ar wardiau'r ysbyty. Roedd tystysgrif sefydlu yn cael ei chadw yn ffeiliau'r staff parhaol ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant sefydlu corfforaethol. Roedd y staff asiantaeth yn cwblhau proses sefydlu yn yr ysbyty cyn dechrau eu sifft ac roedd aelod o'r staff yn Tŷ Catrin a'r aelod o staff asiantaeth yn llofnodi ar ôl i'r broses sefydlu gael ei chwblhau; yna roedd y rhain yn cael eu ffeilio gyda'r tîm adnoddau dynol.

Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar ôl pob cyfnod o dair blynedd o gyflogaeth ac roedd systemau ar waith i fonitro bod cofrestriadau proffesiynol yn gyfredol.

Dangoswyd i ni fod rhaglenni cymorth ar waith ar gyfer staff Priory i gynorthwyo'r staff gyda llawer o agweddau ar eu gwaith a'u bywyd personol, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela annibynnol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad ond ymdriniwyd â nhw drwy ein proses diffyg cydymffurfio.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Catrin, Priory Group.

Ward/uned(au): Bute, Roath, Victoria, Sophia, Trelai a Heath

Dyddiad arolygu: 3, 4 a 5 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n hybu iechyd ar gael yn gyson i'r cleifion.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Y Cydymaith Meddygol a Nyrs y Practis i adolygu'r wybodaeth sy'n hybu iechyd sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd. Datblygu pynciau a themâu iechyd Corfforol.	Y Cydymaith Meddygol / Nyrs y Practis	02/08/19
		Cynlluniau i arddangos gwybodaeth newydd bob mis yn unol â gwaith sgrinio cenedlaethol; digwyddiadau elusennol a'r grŵp cleifion.		03/08/19
		Arddangos amseroedd y Clinig Iechyd Corfforol.		16/08/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Nodi Hyrwyddwyr Iechyd Corfforol ar y Wardiau.</p> <p>Ail-lansio Grŵp Iechyd Corfforol / Byw'n Iach y Cleifion</p>		31/08/19
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y staff ar y ward eu goruchwylio'n ddigonol er mwyn sicrhau bod y lefelau disgwylidig o arfer proffesiynol yn cael eu cynnal.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ystafelloedd gwely'r cleifion yn cael eu</p>	10. Urddas a pharch	<p>Caiff unrhyw bryderon am ymddygiad y staff eu hadolygu i ddechrau drwy oruchwyliaeth gan y rheolwyr. Caiff disgwyliadau eu hategu a gellir rhoi hyfforddiant ychwanegol. Ymdrinnir yn fwy ffurfiol â phroblemau parhaus yn ymwneud ag ymddygiad staff drwy fesurau Gwella Perfformiad a/neu gamau disgyblu.</p> <p>Rydym hefyd yn cynnig Goruchwyliaeth Glinigol ac Arfer Myfyriol.</p> <p>Anogir rheolwyr wardiau i fynd i'r afael â phroblemau o ran ymddygiad staff drwy 'adran canmoliaeth a chwynion' y Cyfarfodydd Cymunedol.</p>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol / Rheolwyr Wardiau	29/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cynnal i safon briodol, gyda gwaith yn cael ei wneud yn brydlon.</p>		<p>Cyflwyno Cofnodlyfr Ceisiadau Cynnal a Chadw NEWYDD ar gyfer materion cynnal a chadw 'ad-hoc'.</p>	<p>Uwch-reolwr Staff y</p>	<p>02/08/19</p>
		<p>Nodyn atgoffa i staff wardiau a staff cadw tŷ i roi gwybod am gyflyrau sy'n ymwneud â glendid a gwaith atgyweirio.</p>	<p>Uwch-reolwr Staff y</p>	<p>06/08/19</p>
		<p>Cyflwyno system Dyrannu Gwaith Atgyweirio Cynlluniedig ac Ymatebol.</p>	<p>Uwch-reolwr Staff y</p>	
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion, gan reoli'r risg ar yr un pryd.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff manylion cyswllt AGIC eu harddangos er mwyn i'r cleifion eu defnyddio os bydd angen.</p>	<p>9. Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion</p>	<p>Caiff posteri AGIC, Gwasanaethau Eirioli a Chwynion eu harddangos yn amlwg ger corlan y nyrsys. Mae manylion y Cyfreithiwr Iechyd Meddwl a'r Swyddog Diogelu Dynodedig hefyd yn weladwy.</p> <p>Ailgyflwyno'r Llawlyfr i Gleifion a Gofalwyr i bob claf ac eithrio ar Ward Trelai – bydd copi caled ar gael ar gais (a gedwir yn swyddfa'r nyrsys). Caiff hysbysiad ei arddangos yn ffenestr y swyddfa.</p>	<p>Rheolwyr Wardiau</p> <p>Cyfarwyddwr Ysbyty/Rheolwyr Wardiau</p>	<p>03/08/19</p> <p>19/08/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn dilyn model gofal priodol sy'n briodol i'r grŵp cleifion, a dangos bod hyn yn cael ei ddilyn. Ac mae'n rhaid sicrhau bod pob aelod o staff yr ysbyty yn ymwybodol o'r model gofal hwn.</p>	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p>	<p>Cyfarfod o'r Tîm Amlddisgyblaethol ynghylch y Model Gofal yn Tŷ Catrin – diwygio dogfen y Model Gofal er mwyn nodi'n benodol mai Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yw'r model gofal.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>01/08/19</p>
		<p>Addysg a hyfforddiant ynghylch y Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a'r dulliau cynllunio cymorth cadarnhaol a ddefnyddir ar hyn o bryd ac ystyried y sylfaen dystiolaeth mewn lleoliadau fforensig ar gyfer unigolion allweddol ar bob ward.</p>	<p>Tîm Dysgu a Datblygu a Seicoleg</p>	<p>09/09/19</p>
		<p>Nodi unigolion allweddol i'w cefnogi wrth addysgu a chefnogi staff y wardiau i ddilyn y model gofal.</p>	<p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>30/09/19</p>
		<p>Datblygu cylchlythyr Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol chwarterol a gaiff ei ddsbarthu a'i arddangos ym mhob rhan o'r gwasanaeth er mwyn i'r staff a'r defnyddwyr gwasanaeth ei weld.</p>	<p>Seicoleg</p>	<p>11/11/19</p>
		<p>Parhau i roi hyfforddiant ar Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu a Chynllunio</p>	<p>Tîm Dysgu a Datblygu a Seicoleg</p>	<p>Parhaus</p> <p>16/12/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cymorth Cadarnhaol ar gyfer nyrsys cofrestredig.</p> <p>Gwerthuso'r wybodaeth am y model gofal a'r ddealltwriaeth ohono yn y gwasanaeth.</p>	Tîm Dysgu a Datblygu a Seicoleg	
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Wrth gofnodi achosion o atal rhywun yn gorfforol, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hyn sy'n arwain at y defnydd o ddulliau atal corfforol ac sy'n ei gyfiawnhau yn cael ei gynnwys, yn ogystal â manylion yr ôl-ofal a ddarperir.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n fanwl ac yn gyson ymhlith holl aelodau'r staff.</p>	<p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>12. Yr amgylchedd</p> <p>4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau</p>	<p>Mae'r adroddiad yn nodi bod Tŷ Catrin eisoes yn cofnodi: enw'r Claf/Cleifion; enw'r Staff; Disgrifiad o'r Digwyddiad; Lleoliad; Amser; Hyd; y Defnydd o Fesurau Atal yn Gorfforol gan y rhai dan sylw ac osgo corff pob person dan sylw.</p> <p>Trafodaeth â'r tîm amlddisgyblaethol ynghylch disgwyliadau AGIC a sut y gallem gofnodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sbardunau neu ddigwyddiadau a arweiniodd at y Digwyddiad • Cyfiawnhad dros Atal Rhywun yn Gorfforol 	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	29/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Ymyriadau ar ôl atal rhywun yn gorfforol <p>Cyflwyno canllawiau newydd ar gofnodi digwyddiadau i'r holl staff.</p> <p>Rhoi hyfforddiant (Ansawdd) ar Gofnodi Digwyddiadau / DATIX i'r uwch-reolwyr – bydd hyn yn galluogi hyfforddiant i gael ei roi i fwy o staff iau.</p> <p>Yn y cyfamser, e-bostio canllawiau at yr holl staff ynghylch darparu hyfforddiant manylach.</p> <p>Rhoi Hyfforddiant i bob aelod o staff y Wardiau.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Arweinydd Gwella Ansawdd</p> <p>Nyrs â Chyfrifoldeb</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>02/08/19</p> <p>01/08/19</p> <p>01/08/19</p> <p>31/08/19</p>
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dillad gwely'r cleifion yn lân ac o safon dderbyniol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau'r cleifion megis ceginau, toiledau ac ystafelloedd ymolchi yn lân a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dderbyniol.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Archwilio dillad gwely na ellir eu rhwygo (a ddefnyddir yn bennaf ar Ward Trelai mewn perthynas â chyflwr y deunydd gyda'r nod o brynu dillad gwely newydd.</p> <p>Caiff ystafelloedd ymolchi, ceginau a thoiledau eu glanhau bob dydd a'u</p>	<p>Arweinydd Diogelwch</p> <p>Uwch-reolwr y Staff</p>	<p>09/08/19</p> <p>05/08/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyddiad yn cael ei nodi ar yr holl fwyd yn oergelloedd y cleifion pan gaiff ei osod yn yr oergell a phan gaiff ei agor.</p>		<p>monitro gan ddefnyddio ffurflenni HK03 a HK03A.</p> <p>Caiff dillad gwely eu gwirio ac, os oes angen, gosodir rhai newydd wrth i bwynt (a) gael ei roi ar waith.</p> <p>Anfon e-bost at y staff yn eu cyngori i roi gwybod ar unwaith am bob cais am gamau gweithredu yn ymwneud â hylendid ac iechyd a diogelwch drwy'r cofnodlyfr ceisiadau canolog a weinyddir gan staff y dderbynfa. Gosod hysbysiad yn ystafell y staff er mwyn rhoi gwybod iddynt am y pwynt hwn.</p> <p>Gosod posteri ar yr oergell.</p> <p>Y staff nos i fonitro cynnwys yr oergell a nodi dyddiadau lle bo angen.</p> <p>Ychwanegu hyn at restr wirio'r Gegin Ategol at ddibenion monitro.</p>	<p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>05/08/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod siartiau MAR y cleifion yn nodi statws cyfreithiol y claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddangos a chofnodi'r rhesymau dros roi meddyginiaeth PRN, a hynny'n llawn, bob tro y caiff ei rhoi.</p>	15. Rheoli meddyginiaethau	<p>Bydd y staff meddygol yn adolygu'r Siartiau Presgripsiynau a Rhoi Meddyginiaethau wrth dderbyn cleifion, yn ogystal ag mewn Adolygiadau o Ofal Cleifion a chyfarfodydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth/cyfarfodydd Dulliau Rhaglen Gofal er mwyn sicrhau bod y statws yn ôl y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei nodi'n glir.</p> <p>Rhoi gwybod i'r nyrsys cofrestredig am y gofynion drwy e-bost.</p> <p>Y Nyrs â Chyfrifoldeb i gwblhau'r broses o wirio'r Siartiau Presgripsiynau a Rhoi Meddyginiaethau a nodi problemau yn adroddiad 'newid sifft' dyddiol y nyrsys.</p> <p>Cynnwys archwiliadau ar hap o'r Siartiau Presgripsiynau a Rhoi Meddyginiaethau mewn Teithiau Ansawdd.</p>	<p>Staff Meddygol</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p> <p>Rheolwyr Wardiau</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>05/08/19</p> <p>02/08/19</p> <p>09/08/19</p> <p>09/08/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau meddygol yn cael eu cynnal i safon broffesiynol gydnabyddedig.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y broses dderbyn yn Tŷ Catrin yn drylwyr ac yn cwmpasu gwiriadau statws cadw cleifion yn gyfreithiol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod holl agweddau Mesur y Ddeddf lechyd Meddwl yn cael eu cofnodi'n glir ac yn gyson yn y cynlluniau gofal a thriniaeth.</p>	20. Rheoli cofnodion	<p>Cyfeirio atynt ar gyfer camau gweithredu sy'n ymwneud â chynnal safonau proffesiynol.</p> <p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 04. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau</p> <p>Cyn derbyn claf i Tŷ Catrin, bydd y Rheolwr y Ddeddf lechyd Meddwl yn gofyn am gopiâu o bapurau cadw cleifion gan Weinyddwr y Ddeddf lechyd Meddwl.</p> <p>Yna defnyddir rhestr wirio craffu Deddf lechyd Meddwl Priory i graffu ar y papurau cadw er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei gadw yn unol â'r gyfraith, ac mae'n rhaid ymdrin ag unrhyw ymholiadau/anghysondebau cyn y dyddiad derbyn. (Caiff ffurflenni craffu eu llofnodi a'u dyddio a'u rhoi yn ffeil gyfreithiol Deddf lechyd Meddwl y claf.)</p> <p>Pan fydd y claf yn cyrraedd Tŷ Catrin, caiff y papurau cadw gwreiddiol eu gwirio</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Rheolwr Deddf lechyd Meddwl</p>	<p>31/08/19</p> <p>01/08/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu dogfennu yng nghynlluniau gofal y cleifion.</p>		<p>eto gan Reolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ar ôl cadarnhau bod y rhain ar gael ac yn gywir, caiff y ffurflen drosglwyddo o dan adran 19 ei llofnodi er mwyn derbyn y claf. Yna derbynnir y claf ar y ward.</p>		
		<p>Mae Tŷ Catrin yn ceisio diwallu holl anghenion y cleifion a chofnodi hyn yn y Cynlluniau Gofal, yr Adolygiadau Gofal Unigol a'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth/Dulliau Rhaglen Gofal.</p>		
		<p>Os na fyddwn yn gallu diwallu angen claf, rydym yn cynnig sicrhau y cyfeirir at hyn yn y Cynlluniau Gofal ac y caiff yr anghenion 'nas diwallwyd' eu hadolygu a'u gwerthuso unwaith y mis drwy'r broses Adolygiadau Gofal Unigol.</p>		27/09/19
		<p>Y tîm amlddisgyblaethol i adolygu'r Cynlluniau Gofal presennol er mwyn sicrhau bod pob maes yn cyfeirio at unrhyw anghenion nas diwallwyd.</p>	Clinigwyr Cyfrifol	27/09/19
<p>Caiff anghenion nas diwallwyd a nodir yn y Cynlluniau Gofal eu hadolygu a'u</p>	Clinigwyr Cyfrifol			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwerthuso drwy'r broses Adolygiadau Gofal Unigol bob mis wedi hynny.</p> <p>Ystyrir adolygiad arall o anghenion 'nas diwallwyd' fel rhan o'r broses Cynllunio Gofal ac Amserlenni 12 wythnos.</p>		Cylchol (12 wythnos)

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Therisa Galazka

Swydd: Rheolwr Cofrestredig (Cyfarwyddwr yr Ysbyty)

Dyddiad: 02/08/19

Diweddarwyd: 22/08/19